


Eich Cynorthwyydd Codi Arian



Awyr Las
Blue Sky

Elusen GIG Gogledd Cymru
The North Wales NHS Charity



Diolch am wneud gwahaniaeth i gleifion lleol a'u teuluoedd.
Rhif Elusen Gofrestredig. 1138976.

DIOLCH YN FAWR

Oherwydd haelioni unigolion fel chi, dros y pedair blynedd ddiwethaf mae eich elusen y GIG wedi gallu gwario dros £10m ar offer newydd, gwell cyfleusterau, moethau cleifion ychwanegol a phrosiectau arbennig sydd yn mynd uwchlaw a thu hwnt i beth mae'r GIG yn gallu ei ddarparu.

Drwy godi arian ar gyfer y wardiau, ysbyty, adrannau, a gwasanaethau gofal iechyd cymuned penodol sydd agosaf at eich calon, rydych yn helpu i sicrhau bod yr unigolion lleol yn eich cymuned yn cael profiadau gorau mewn ysbytai a lleoliadau cymuned ar draws yr ardal.

Mae eich cymorth yn golygu cymaint i bawb sydd yn gysylltiedig â'ch elusen GIG, o'r staff gofal iechyd sy'n gweithio'n galed i'r nifer o gleifion a'u teuluoedd a fydd yn elwa ohono.



Pob lwc gyda'ch gwaith codi arian ac mae croeso i chi gysylltu os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'ch cefnogi.

LLE I DDECHRAU

Canllaw cam wrth gam

1. **Cofrestru** Os nad ydych wedi gwneud yn barod, gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru eich digwyddiad gyda Thîm Cefnogi Codi Arian Awyr Las fel y gallwn anfon llythyr o awdurdodi ac adnoddau codi arian perthnasol.
2. **Cynllun:** Meddyliwch am y math o ddigwyddiad yr hoffech ei gynnal, ble byddwch yn ei gynnal, pwy mae wedi ei anelu ato a sut bydd yn codi arian.
3. **Hyrwyddo** Meddyliwch sut y byddwch yn hyrwyddo eich digwyddiad a'i hysbysebu (gweler tud 5 a 6 am ragor o wybodaeth).
4. **Materion cyfreithiol, loteri a thrwyddedau:** Mae llawer o reolau ynglŷn â loteri felly gwiriwch y wybodaeth ddiweddaraf ar www.gamblingcommission.gov.uk Gwiriwch gyda'r awdurdod lleol p'un ag ydych angen trwydded arbennig e.e. trwydded gasglu, adloniant cyhoeddus ayyb. Cofiwch gynnal asesiad risg o'ch digwyddiadau codi arian lle bo'n briodol.



Tra ein bod yn hynod ddioleghgar i chi am gefnogi gwasanaethau gofal iechyd lleol drwy eich elusen GIG, ni allwn dderbyn unrhyw atebolrwydd am eich digwyddiad codi arian. Sicrhewch fod pob yswiriant a thrwyddedau perthnasol yn eu lle.

DIGWYDDIADAU NODDEDIG

P'un ag ydych yn rhedeg hanner marathon neu'n cymryd rhan mewn her bersonol, gwnewch y mwyaf o bob cyfle i noddi

Ffurflenni Noddi

Defnyddiwch ffurflenni noddi Awyr Las (yn amgaeedig) i gofnodi nawdd gan ffrindiau, teulu a chydweithwyr a galluogi eich elusen GIG i hawlio Rhodd Cymorth ar eu rhoddion. Anogwch eich noddwyr i gynnwys eu

cyfeiriad ac i roi tic yn y golofn Rhodd Cymorth i'n galluogi i wneud y cyfraniad fynd ymhellach. Dychwelyd unrhyw ffurflenni noddi wedi'u cwblhau at Dîm Cefnogi Codi Arian pan rydych yn talu'r arian rydych wedi ei godi.

Oeddech chi'n gwybod os ydych yn drethdalwr Deyrnas Unedig y gallwch ychwanegu 25% ychwanegol at werth eich rhodd heb unrhyw gostau ychwanegol drwy'r cynllun Rhodd Cymorth?



CODI ARIAN AR-LEIN GAN DDEFNYDDIO JUSTGIVING

Creu tudalen godi arian fel gall unigolion eich noddi chi ar-lein. Mae'r tudalennau yn hawdd ac yn gyflym i'w creu, a bydd yn casglu cymorth rhodd yn awtomatig.

I greu tudalen, yn syml ewch ar www.justgiving.com/algc a phwyswch ar 'Codi arian i ni'. Gallwch yna uwchlwytho lluniau a chynnwys manylion ar beth fyddwch yn ei wneud i godi arian, a gwybodaeth am y ward ysbyty adran neu wasanaeth gofal iechyd cymuned penodol yr ydych wedi dewis ei gefnogi.

Unwaith rydych wedi creu tudalen JustGiving gallwch greu cod JustTextGiving fel y gall ffrindiau a theulu gyfrannu at eich tudalen i godi arian drwy neges destun.

Mae arian a godir drwy eich tudalen JustGiving yn cael ei anfon yn uniongyrchol at yr elusen lle bydd yn cael ei gredydu i'r maes penodol rydych wedi dewis ei gefnogi.



HYRWYDDO EICH DIGWYDDIAD CODI ARIAN

Mae gan Dîm Cefnogi Codi Arian amryw o ddeunyddiau i'ch helpu chi godi arian yn cynnwys tuniau a bwcedi casglu arian, posteri, baneri naid, balŵns, taflenni a chrysau- t elusen, heb sôn am fasgot elusen hyfryd Awyr Las, Nel Del!!!

- Trydarwch am eich digwyddiad a chynnwys eich elusen GIG @awyrilascharity
- Hyrwyddo eich digwyddiad ar Facebook drwy bostio dolen ar eich tudalen JustGiving neu drwy sefydlu digwyddiad Facebook a gwahodd eich ffrindiau
- Gofynnwch i bawb rydych yn ei adnabod i ddod a helpu i ledaenu'r gair am eich digwyddiad

Hyrwyddo
eich
digwyddiad



Efallai bydd y Tîm Cefnogi Codi Arian yn gallu helpu hyrwyddo eich ymdrechion codi arian drwy newyddion cyfryngau cymdeithasol yr elusen a/neu'r wasg leol. Cysylltwch â'r tîm yn uniongyrchol ar 01248 384395 neu awyrilas@wales.nhs.uk am ragor o wybodaeth..

Rhowch y Rhif Elusen Gofrestredig 1138976 ar unrhyw ddeunyddiau sy'n hysbysebu eich digwyddiad codi arian.

TALU EICH ARIAN RYDYCH WEDI GWEITHIO'N GALED I'W GODI

Gallwch dalu'r arian drwy'r post, wyneb yn wyneb, neu ar-lein.

- Drwy'r post: Ysgrifennwch sieciau yn daladwy i 'Awyr Las' neu at enw ward neu adran yr ysbyty rydych wedi dewis ei chefnogi, a'i anfon at:

Tim Cefnogi Codi Arian,
Ysbyty Gwynedd, Bangor,
LL57 2PW.

- Wyneb yn wyneb (arian a sieciau) yn Swyddfa Cyffredinol unrhyw un o Ysbytai Gogledd Cymru (ar agor dydd Llun- ddydd Gwener 08:30 - 16:30)
- Defnyddio cerdyn credyd neu ddebyd ar-lein ar

www.awyrlas.org.uk/donate/online-donation



Cwblhewch y Ffurflen Dalu Codi Arian (sy'n amgaeedig yn y pecyn codi arian) ac anfonwch hwn gydag unrhyw arian a godwyd.

Os hoffech drefnu llun ohonoch neu eich rhai sy'n codi arian ar y cyd yn cyflwyno'r arian a godwyd i'r staff ar Ward neu Adran benodol cysylltwch â'r Tim Cefnogi Codi Arian i drefnu dyddiad ac amser cyfleus.

Cofiwch ddychwelyd unrhyw adnoddau codi arian megis tuniau casglu arian a baneri, ac anfonwch unrhyw ffurflenni codi arian wedi'u cwblhau fel y gallwn hawlio Rhodd Cymorth ar gyfraniadau eich noddwyr.

Bydd unrhyw arian a gesglir drwy ddefnyddio tudalen JustGiving yn cael ei dalu i'r elusen yn uniongyrchol ac yn cael ei gredydu i'r ward/adran rydych wedi dewis ei chefnogi. Bydd eich tudalen JustGiving fel arfer yn cau 12 wythnos ar ôl dyddiad eich digwyddiad.

Byddwch yn derbyn llythyr neu e-bost yn diolch i chi am eich cymorth gwerthfawr o fewn 3 wythnos o dalu'r arian rydych wedi ei godi.

CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

A ydw i angen caniatâd i godi arian ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd lleol drwy Awyr Las?

Bydd. Dylech gysylltu â Thîm Cefnogi Codi Arian, gan roi manylion am beth fyddwch yn ei wneud, pryd a ble bydd yn cael ei gynnal ynghyd â'ch enw llawn, cyfeiriad a rhif cyswllt neu gyfeiriad e-bost. Yna byddwn yn anfon llythyr awdurdodi ar bapur pennawd. Mae hyn yn ein galluogi i gadw golwg ar yr holl ddigwyddiadau codi arian sy'n cael eu cynnal, ond mae hefyd yn eich amddiffyn gan y gallwn dawelu meddwl unigolion eich bod chi'n wirioneddol yn codi arian drwy'r elusen.

A ga'i gefnogi ward, adran neu wasanaethau gofal iechyd cymuned ysbyty Gogledd Cymru penodol drwy Awyr Las?

Cewch siŵr! Mae gan ran fwyaf o wardiau, adrannau neu wasanaethau gofal iechyd cymuned gyllid penodol o fewn yr elusen, sy'n eich galluogi i gefnogi meysydd penodol y GIG sydd agosaf at eich calon.

Sut bydd yr arian y byddaf yn ei godi yn cael ei wario?

Gwneir penderfyniadau ar sut dylid gwario cyfraniadau gan uwch aelodau o staff sy'n ymwneud â'r Ward, Adran neu Wasanaeth Gofal Iechyd Cymuned rydych wedi dewis ei chefnogi. Mae hyn fel arfer yn uwch Feddyg, Metron neu Brif Nyrs Ward a all sicrhau bod eich cefnogaeth werthfawr yn cael yr effaith orau ar gyfer eu cleifion.

Mae cyfraniadau drwy Awyr Las yn helpu i gyllido offer newydd, prosiectau arbennig, gwell cyfleusterau, a chysuron cleifion ychwanegol sy'n mynd uwchlaw a

thu hwnt i beth mae'r GIG yn gallu ei ddarparu. Am enghreifftiau penodol o sut all gleifion lleol elwa o'ch cefnogaeth, cysylltwch â Thîm Cefnogi Codi Arian.

A ydw i'n cael fy nghynnwys ym mholisi hyswiriad Awyr Las ar gyfer y digwyddiad?

Na. Ni allwn ddarparu yswiriant atebolwydd ar gyfer unrhyw sy'n codi arian drwy'r elusen, ond gallwn ddarparu cyngor p'un ag ydych angen yswiriant ar gyfer eich digwyddiad.

A all cynrychiolwr o'r Elusen fod yn fy nigwyddiad codi arian?

Cysylltwch â Thîm Cefnogi Arian Awyr Las ar 01248 384395 neu e-bost awyrilas@wales.nhs.uk. Os ydym yn gallu, byddwn yn eich cefnogi.

Ga i hawlio Cymorth Rhodd?

Mae Rhodd Cymorth yn galluogi eich elusen GIG hawlio 25% ychwanegol ar ben eu cyfraniad heb unrhyw gost ychwanegol i chi. Gall unrhyw drethdalwr hawlio rhodd cymorth, ar yr amod eu bod wedi talu mwy o dreth na swm y cyfraniad maent yn dymuno ei hawlio. Er enghraifft, os yr hoffech gymhwyso cymorth rhodd i gyfraniad o £100, byddai'n rhaid eich bod wedi talu £25 o dreth yn ystod y flwyddyn. Ffoniwch ni os nad ydych yn siŵr os gellir cymhwyso Rhodd Cymorth i'ch digwyddiad.

Ga i fynd at gwmnïau lleol i fy nghefnogi i godi arian?

Unwaith rydych wedi cofrestru eich digwyddiad gyda'r Tîm Cefnogi Codi Arian byddwch yn cael llythyr awdurdodi y gallwch ei ddefnyddio pan rydych yn mynd at gwmnïau a allai gefnogi eich ymgais i godi arian.